

Mynwent Eglwys Santes Gwawr, Llangywer

Rheolau

Cyngor Cymuned Llangywer yw'r Awdurdod Claddu a'r Cyngor Cymuned sydd yn berchen ar y fynwent. Oherwydd prinder gofod priodol, cyfyngir claddu yn y fynwent i'r sawl ymadawedig a fu'n byw yn Llangywer, neu i'r sawl fu a chysylltiad agos iawn a chymuned Llangywer.

Trefniadau cyn claddu:

1. Rhaid rhoi rhybudd o gladdedigaeth (yn cynnwys claddu llwch) i Swyddog y Fynwent o leiaf dri diwrnod cyn y Gladdedigaeth, gyda'r Rhybudd Claddu ac unrhyw ffurflen berthnasol arall. Ni chaniateir **gwasgaru** llwch o fewn y fynwent.
2. Ni chaniateir claddu cyn 10.00 o'r gloch y bore nac ar ôl 3.00 o'r gloch y prynhawn yn yr Haf. (2.00 o'r gloch yn y Gaeaf). Ni cheir claddu ar y Sul nac ar adeg gwyliau statudol.
3. Rhaid talu'r holl ffioedd priodol i Swyddog y Fynwent (neu'r Ymgymwrwr angladdau) gyda'r Rhybudd Claddu (neu gyda chais i osod cofeb) yn unol â ffioedd cyfredol y Cyngor. Fe gedwir hawl gan y Cyngor i adolygu'r rheolau a'r ffioedd fel y bo'r angen.

Plotiau a beddfeini:

1. Ni chaniateir prynu hawl claddu cyfyngedig ond pan fo angen i'w ddefnyddio ar y pryd, ac ni chaniateir agor bedd oni bai fod ei angen o fewn tri diwrnod.
2. Os gwnaethpwyd taliad yn y gorffennol yn nodi safle penodol i fedd, cofier mai PRYDLESU am 75 mlynedd a wnaethpwyd, nid *prynu* darn o dir.
3. **Ni chaniateir gosod unrhyw gofeb heb yn gyntaf dderbyn caniatâd ysgrifenedig y Cyngor / Swyddog y Fynwent.**
4. Mae cyfrifoldeb am gofeb yn disgyn ar y sawl sydd a'r hawl i gladdu yno neu ei gynrychiolwyr.
5. **Perchnogion y cofebion sydd â'r cyfrifoldeb i'w cynnal a'u cadw mewn cyflwr da.**
 - 5.1 Pan fo angen atgyweirio cofeb rhaid rhoi blaen rybudd i Swyddog y Fynwent gan sicrhau gwasanaethau person cymwys a phrofiadol i ymgymryd â'r gwaith.
 - 5.2 Hysbysir perchnogion (os ydynt yn wybyddus) pan fo angen atgyweirio cofebion, ac oni atgyweirir hwy o fewn yr amser penodedig, gall y Cyngor weithredu i wneud y gofeb yn ddiogel (yr hawl wedi ei roi dan Gyfarwyddyd Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977).
 - 5.2 Gall y Cyngor weithredu mewn modd uniongyrchol ynghylch unrhyw gofeb y mae'n credu sydd yn creu risg iechyd a diogelwch o arwyddocâd. Golyga hyn gweithredu heb roi rhybudd ffurfiol ymlaen llaw i'r teuluoedd.
6. **NI chaniateir palu tir bedd na phlannu arno unrhyw blanhigyn na chreu border neu unrhyw ddiben cyffelyb.**
7. **Ni chaniateir nodweddion ar y tir o flaen carreg neu gofeb ac eithrio eu bod ar droed neu blinth o faint a gwedd wedi ei gymeradwyo ymlaen llaw gan Swyddog y Fynwent.**
8. Ni chaniateir i'r cyhoedd ddefnyddio chwynladdwr o fewn ffiniau'r fynwent.
9. Caniateir gosod torch neu flodeudorch (o ddeunydd sidan, nid blastig) ar feddau rhwng mis Tachwedd a dechrau Mawrth.
10. Gwaherddir cŵn o'r mynwentydd, ac eithrio cŵn tywys.

Swyddog y Fynwent sydd yn cyflawni'r holl ddyletswyddau gweinyddol ac yn gofalu am y cofnodion statudol.
Mrs Lis Puw, Bedw Gwynion, Llanuwchllyn 07896964120